Sut mae rhoi organanau yn gweithio?



Mae rhoi organanau yn achub ac yn trawsnewid miloedd o fywydau bob blwyddyn, gyda hyd yn oed mwy o fywydau yn cael eu hachub drwy roi meinweoedd.



I fod yn rhoddwr organau, bydd angen i chi farw yn yr ysbyty mewn amgylchiadau penodol. Pan fydd hynny'n digwydd, bydd nyrs arbenigol yn edrych i weld os ydych wedi cofrestru i roi organau.



Os ydych wedi cofrestru i roi organau, bydd disgwyl i'ch teulu gefnogi eich penderfyniad, ac os nad ydych, gofynnir iddyn nhw wneud penderfyniad ar eich rhan.

Bydd y sgwrs yma'n digwydd os ydych wedi cofrestru i roi organau neu beidio, a dyna pam mae mor bwysig dweud wrth eich teulu beth rydych chi eisiau.

Peidiwch â gadael iddyn nhw wneud penderfyniad ar adeg mor anodd.

Bydd angen i nifer o brofion gael eu gwneud i weld os yw eich organau yn addas ar gyfer cleifion, yna os bydd y trawsblaniad organau yn gallu mynd yn ei flaen, bydd eich organau yn cael eu paru gyda chleifion sydd ar Restr Aros Trawsblaniad y DU.

Caiff rhoddwyr organau eu trin gyda'r un parch, urddas a gofal ag unrhyw glaf arall, a gallent achub neu drawsnewid bywydau hyd at naw person.

Mae dros 50,000 o bobl yn fyw heddiw, ar draws y DU, diolch i haelioni rhoddwyr organau a'u teuluoedd.

Ond ar hyn o bryd, mae tua 6,000 o bobl sy'n ddifrifol wael yn aros am drawsblaniad i achub eu bywydau.



Cofrestrwch nawr a dywedwch wrth eich teulu eich bod am roi rhodd bywyd